LEG-20-2001 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 17eg Mehefin 2001

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

Mick Bates (Cadeirydd) (Democrat Rhyddfrydol)

Dr Dai Lloyd (Plaid Cymru)

Rosemary Butler (Llafur)

Ron Davies (Llafur)

Pauline Jarman (Plaid Cymru)

Owen John Thomas (Plaid Cymru)

**Swyddogion:**

John Turnbull Ymgynghorydd Cyfreithiol

D Huw Davies Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Olga Lewis Clerc y Pwyllgor

Corinne Leavy Dirprwy Glerc y Pwyllgor Dros Dro

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies a John Griffiths

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-19-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Nid oedd unrhyw beth i adrodd yn ôl yn ei gylch.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**<u>LC314:</u> Rheoliadau Porthiant (Cymru) a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Cymru) 2001**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Cadeirydd. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Gan fod mân wallau drafftio cytunwyd y dylid eu diwygio o dan Reol Sefydlog 22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau hyn yn y modd hwn.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC314 (Adroddiad).

**<u>LC315:</u> Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) (Diddymu) 2001**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac ni wnaed unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC315 (Adroddiad).

**<u>LC316:</u> Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC316 (Adroddiad).

**<u>LC317:</u> Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir o dan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC317 (Adroddiad).

**<u>LC318:</u> Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru)**

**2001**

3.13 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn drafft fel LC318 (Adroddiad).

**LC319: Rheoliadau Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Rheoliadau drafft fel LC319 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, dyddiedig 22 Mehefin 2001**

**LC236 – Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001**

4.1 Adroddodd Mr Turnbull fod ymholiad wedi ei godi o dan Reol Sefydlog 11.4 yn ymwneud â’r ymadrodd ‘ardal ragnodedig’. Er ei fod yn glir, mewn termau cyfreithiol, y gallai Cymru fod yn "ardal ragnodedig" credwyd y gallai fod yn ddefnydd annisgwyl neu anarferol ac o’r p•er galluogi drwy drin y wlad gyfan yn ardal ragnodedig. Ymgynghorwyd ag ymgynghorwyr y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol, fodd bynnag, ac ystyriwyd sylw’r Gweinidog na fyddai’r senedd yn cael unrhyw anhawster o ran derbyn y gallai Cymru fod yn "ardal ragnodedig". O ganlyniad, daethpwyd i’r casgliad na ddylai’r Pwyllgor adrodd yn ôl fod y Rheoliadau’n gwneud defnydd annisgwyl neu anarferol o’r pwerau galluogi. Diddymwyd y Rheoliadau ers hynny, cyn y dyddiad dod i ben, o dan LC315.

**Eitem 5: Sesiwn Holi ac Ateb gyda Winston Roddick QC, y Cwnsler Cyffredinol, ar dechnegau Cyd-ddrafftio ar gyfer deddfwriaeth ddwyieithog a ddefnyddir gan Lywodraeth Ffederal Canada ac yn New Brunswick**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd y Cwnsler Cyffredinol a’i wahodd i ddechrau’r drafodaeth drwy ateb cwestiynau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor.

5.2 Roedd y cwestiwn cyntaf yn ymwneud â manteision y dechneg gyd-ddrafftio i Gymru. Gan na cheir gwahaniaethau diwylliannol, addysgol a chyfreithegol rhwng cyfreithwyr Cymraeg eu hiaith a chyfreithwyr Saesneg eu hiaith yn yr un modd â’r rheini a geir gan y cyfreithwyr Ffrangeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith yng Nghanada gofynnwyd ym mha ffordd y gallai’r dechneg gyd-ddrafftio fod o fudd.

5.3 Tynnodd Mr Roddick sylw at bwysigrwydd deddfwriaeth yn adlewyrchu un fersiwn fel un oedd yn llywio’r

llall yn hytrach nag yn gweithredu fel drych yn unig. Gwelwyd hynny yn y modd y cafodd y ddeddfwriaeth ei drafftio. Dylai dau ddiwylliant gwahanol ddylanwadu ar ei gilydd. Credai y byddai dau ddrafftiwr yn arwain at wrthrychedd a phrinder hepgoriadau. Ar hyn o bryd roedd cymhwysedd mewn un iaith yn tra-arglwyddiaethu. Roedd drafftwyr profiadol yn bennaf yn unieithog. Nid dim ond adlewyrchu cyfreitheg Saesneg y dylai cyfreithwyr Cymraeg eu hiaith ei wneud: dylai cyfreitheg Gymraeg ddatblygu ochr yn ochr â'r Saesneg. Roedd drafftio dwyieithog yn gysyniad newydd sy'n datblygu yn awr. Er bod proses drosiannol eisoes wedi dechrau eglurodd Mr Roddick y byddai'n rhaid treulio hyd at 5 mlynedd cyn sicrhau cymhwysedd o'r safon uchaf. Credai fod y broses o lunio cyfreitheg Cymru yn hytrach na'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg, yn un barhaus a fyddai'n parhau hyd y gellir rhagweld.

5.4 Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol pa un a oedd y broses gyd-ddrafftio yn gydamserol a pha mor ymarferol oedd i rywun nad oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddo ef neu iddi hi gael ei hyfforddi at y safon sy'n ofynnol ar gyfer cyd-ddrafftio. Ymateb Mr Roddick oedd fod y broses yn wirioneddol gydamserol. Estynnodd wahoddiad i aelodau'r Pwyllgor ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac arsylwi'r broses drostynt eu hunain. Eglurodd hefyd fod trwytho pobl yn y Gymraeg yn ystod yr hyfforddiant ar gyfer drafftio yn arwain at broses ddysgu gyflymach. Roedd y broses ei hun yn arwain at gymhwysedd uchel yn y Gymraeg o ran termau technegol a llythrennedd cyffredinol.

**Gweithredu: Clerc: trefnu ymweliad i aelodau'r Pwyllgor ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i arsylwi'r broses o ddrafftio deddfwriaeth ddwyieithog (Tachwedd).**

5.5 Holwyd a oedd unrhyw gynseiliau cyfreithiol ar gyfer dehongliadau gwahanol o dermau cyfreithiol mewn ieithoedd gwahanol. Credai Mr Roddick y gallai hynny fod yn bosibilrwydd ac mewn achos o'r fath y byddai disgwyl i'r llys gyfarwyddo ei hun, gan ystyried y fersiwn perthnasol o'r gyfraith a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath awgrymodd y dylid safoni termau a dehongliadau cyfreithiol. Credai y gallai hyn gynnwys cysylltu â changhennau ac adrannau perthnasol y llywodraeth yn y Cynulliad. Gobeithiai Mr Roddick y byddai'r Prifysgolion yn chwarae rhan yn hyn yn ogystal â chynhyrchu testunau cyfreithiol yn y Gymraeg a sicrhau bod cyrsiau gradd yn y gyfraith ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (Mae Prifysgol Cymru Aberystwyth yn gwneud hynny eisoes). Rôl bellach i'r Prifysgolion fyddai gwneud cyrsiau ar gael i farnwyr a oedd yn ceisio meistroli'r Gymraeg.

5.6 Ceisiodd yr aelodau eglurder yngl•n a fyddai pwyntiau Mr Roddick yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth yn ogystal â deddfwriaeth sylfaenol. Cadarnhaodd Mr Roddick ei fod.

5.7 Gofynnwyd i Mr Roddick a fyddai mabwysiadu'r dechneg gyd-ddrafftio yn golygu bod yn rhaid recriwtio cyfreithwyr ychwanegol Cymraeg eu hiaith. Atebodd fod y Cynulliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Er mwyn bodloni gofynion Adrannau 66(4) a 47 o Ddeddf Llywodraeth Cymru roedd angen eisoes am weision sifil dwyieithog yn gyffredinol a chyfreithwyr yn benodol. Pwysleisiodd Mr Roddick fod y Cynulliad Cenedlaethol cyfan a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol fel rhan ohono yn llywio'r broses. Dyfynnodd rai ystadegau yngl•n â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol: roedd chwe chyfreithiwr dwyieithog yn gweithio mewn chwe thîm drafftio. Roedd dau gyfreithiwr ychwanegol yn cymryd rhan yn y gwaith ac roedd pedwar aelod ychwanegol o staff ar fin dechrau.

5.8 Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am y graddau y caiff deddfwriaeth ei drafftio'n ddwyieithog ar hyn o bryd. Atebodd Mr Roddick fod pob un ar wahân i 15 o'r 141 o Offerynnau Statudol a gyhoeddwyd yn 2000 yn gwbl ddwyieithog. Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif o'r rhain eu cyfieithu yn hytrach na'u cyd-ddrafftio. Cafodd un Offeryn Statudol ei gyd-ddrafftio a chafodd rai Offerynnau Anstadudol eu cyd-ddrafftio.

5.9 Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol faint o ddeddfwriaeth a ddrafftiwyd gyda'r testun Cymraeg yn cael ei baratoi fel y testun arweiniol. Atebodd Mr Roddick mai prin iawn yw'r testunau a gaiff eu drafftio yn Gymraeg yn gyntaf ar hyn o bryd: paratôdd un cyfreithiwr ddau destun yn Gymraeg yn gyntaf. Fodd bynnag, flwyddyn yn ôl ni chafodd unrhyw destun ei baratoi yn y modd hwnnw.

5.10 Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol pwy oedd yn gyfrifol am gymeradwyo deddfwriaeth a ddrafftiwyd yn ddwyieithog yn rheoliadol ac atebodd John Turnbull mai rôl yr adran a hyrwyddodd y ddeddfwriaeth oedd hynny. Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru roedd y Cynulliad cyfan yn gyfrifol am sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Yn ogystal, wrth gwrs, mae gan y Pwyllgor Deddfau rôl archwilio o ran hyn oherwydd o dan RhS 11.5(vi) gall wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i eitem o is-ddeddfwriaeth os ymddengys fod anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Tynnodd Mr Roddick sylw at y manteision posibl y gellid elwa arnynt pe bai aelodau'r Pwyllgor Deddfau a phwyllgorau perthnasol eraill yn ymweld â Chanada i astudio eu profiad hwy o'r broses gyd-ddrafftio.

5.11 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Roddick am ei adroddiad ac am ei atebion i'r cwestiynau. Nododd fod gwybodaeth Mr Roddick yn procio'r meddwl a bod aelodau'r Pwyllgor yn rhannu brwdfrydedd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yngl•n â datblygu ochr Gymraeg drafftio deddfwriaeth a oedd yn hynod bwysig yn eu barn hwy.

**Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

6.1 **LC309 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

Yna, hysbysodd Mr Turnbull yr aelodau yngl•n â phwynt a godwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a drafodwyd mewn cyfarfod cynharach. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5 ond ymgorfforwyd nifer o fân welliannau i Femorandwm Cywiriadau. Pan welodd ymgynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor y Memorandwm Cywiriadau sylwyd bod y nodyn cefndirol yn rhoi'r argraff clir na wnaed y pwyntiau a godwyd yn wreiddiol gan yr ymgynghorwyr cyfreithiol ac mai dim ond ar adeg ystyried y Rheoliadau gan y Pwyllgor y cawsant eu cyflwyno. Credwyd bod hyn yn rhoi camargraff o'r ffeithiau gan fod y pwyntiau a godwyd wedi eu cynnwys yn adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol o'r cychwyn cyntaf. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Jane Hutt yn ei hysbysu ynghylch y mater hwn. **Gweithredu: Clerc.**

6.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Hydref 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC314 (Adroddiad)
- LC315 (Adroddiad)
- LC316 (Adroddiad)
- LC317 (Adroddiad)
- LC318 (Adroddiad)
- LC319 (Adroddiad)